**Rhif:** WG47266

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Adolygiad o ddyfroedd ymdrochi Cymru 2023

## Dynodi Traeth Aberogwr, Bae'r Tŵr Gwylio, Traeth Gorllewin Porth Tywyn a Thraeth Dwyrain Porth Tywyn yn Ddyfroedd Ymdrochi Dynodedig

Ebrill 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron Digital ISBN 978-1-80535-767-4

## Trosolwg

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar gynigion i ddynodi Traeth Aberogwr, Bae'r Tŵr Gwylio, Traeth Gorllewin Porth Tywyn a Thraeth Dwyrain Porth Tywyn yn ddyfroedd ymdrochi dynodedig o dan Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 18 Ionawr a 1 Mawrth 2023.

Gofynnodd yr ymgynghoriad i ymatebwyr a oeddent yn cefnogi'r cynigion i ddynodi Traeth Aberogwr, Bae'r Tŵr Gwylio, Traeth Gorllewin Porth Tywyn a Thraeth Dwyrain Porth Tywyn yn ddyfroedd ymdrochi dynodedig ar gyfer 2023 a rhoi rhesymau/tystiolaeth i gefnogi eu barn.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn ymateb iddynt. Nid yw'n cynnig barn fanwl ar sylwadau unigol.

Mae Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i gyflwyno eu barn.

## Cyd-destun

Amcan dynodi traeth neu ardal ymdrochi fewndirol yn ddŵr ymdrochi yw diogelu iechyd ymdrochwyr rhag llygredd carthion a rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd fel y gall pobl wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch ble a phryd i ymdrochi.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn monitro ansawdd dŵr yn ystod y tymor ymdrochi, sy'n para o 15 Mai tan 30 Medi yng Nghymru. Disgrifir Dyfroedd Ymdrochi bob blwyddyn fel 'rhagorol', 'da', 'digonol' neu 'wael'. Os nad yw ansawdd dŵr yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol yn gyfreithiol, bydd CNC yn ymchwilio i ffynonellau llygredd ac yn argymell mesurau adferol i wneud gwelliannau.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

Cangen Ddŵr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: dwr@llyw.cymru

**Copïau ychwanegol**

Cyhoeddir y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o’r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i ddogfen yr ymgynghoriad: Ymgynghoriad Dyfroedd Ymdrochi Cymru 2023

# Cynnwys


Cyflwyniad ..... 5

Trosolwg o Niferoedd a'r Math o Ymatebwyr ..... 5

Cwestiynau a Holwyd ..... 5

Ymatebion i'r Ymgynghoriad ..... 6

Tabl o ymatebion ..... 7

Cwestiwn 1 ..... 8

Cwestiwn 2 ..... 9

Cwestiwn 3 ..... 10

Cwestiwn 4 ..... 12

Cwestiwn 5 a 6 ..... 13

Cwestiwn 7 ..... 14

Ymateb y Llywodraeth ..... 15

Canlyniad yr ymgynghoriad ..... 15

Monitro dyfroedd ymdrochi dynodedig ..... 15

Y Camau Nesaf ..... 16

Atodiad A – Rhestr o'r Sefydliadau a Ymatebodd ..... 17

## Cyflwyniad

Mae’r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o’r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddynodi Traeth Aberogwr, Bae’r Tŵr Gwylio, Traeth Gorllewin Porth Tywyn a Thraeth Dwyrain Porth Tywyn, yn ogystal ag ymateb y Llywodraeth a datganiad polisi sy’n amlinellu’r camau nesaf.

Gofynnodd yr ymgynghoriad i’r ymatebwyr ateb a oeddent yn cytuno neu’n anghytuno â’r cynnig i ddynodi Traeth Aberogwr, Bae’r Tŵr Gwylio, Traeth Gorllewin Porth Tywyn a Thraeth Dwyrain Porth Tywyn yn ddyfroedd ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2023 a beth oedd eu rhesymau/tystiolaeth i gefnogi’r safbwyntiau hynny.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfuniad o gwestiynau amlddewis a naratif.

**Trosolwg o Niferoedd a’r Math o Ymatebwyr**

Cafwyd 190 o ymatebion i’r ymgynghoriad. O’r rhain, daeth 183 drwy’r porth ar-lein a chafwyd 7 ymateb arall yn uniongyrchol drwy e-bost.

| Ymatebydd | Nifer yr Ymatebion |
|---|---|
| Unigolion | 165 |
| Cwmni dŵr | 1 |
| Awdurdod Lleol | 1 |
| Cyngor Tref/Cynghorydd lleol/Cyngor Cymuned | 2 |
| Cyrff Proffesiynol | 8 |
| Clybiau a mudiadau lleol sy’n gwneud defnydd o ddyfroedd | 12 |
| Corff amgylcheddol anllywodraethol | 1 |
| **Cyfanswm** | **190** |

Mae rhestr lawn o’r ymatebwyr wedi’i chynnwys yn Atodiad A (ac eithrio’r unigolion a’r grwpiau a ofynnodd am i’w hymateb fod yn ddienw), gyda nifer o’r ymatebwyr yn dewis cadw eu hymateb yn gyfrinachol.

**Cwestiynau a Holwyd**

Gofynnwyd saith cwestiwn i’r ymatebwyr mewn perthynas â’r dynodiadau arfaethedig, sef:

**Cwestiwn 1:** Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r cynnig i ddynodi Traeth Aberogwr yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2023? Beth yw’ch barn am y cynnig a’ch rhesymau/tystiolaeth o blaid y farn honno?

**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddynodi Bae'r Tŵr Gwylio, y Barri yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2023? Beth yw'ch barn am y cynnig a'ch rhesymau/tystiolaeth o blaid y farn honno?

**Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddynodi Traeth Gorllewin Porth Tywyn yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2023? Beth yw'ch barn am y cynnig a'ch rhesymau/tystiolaeth o blaid y farn honno?

**Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddynodi Traeth Dwyrain Porth Tywyn yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2023? Beth yw'ch barn am y cynnig a'ch rhesymau/tystiolaeth o blaid y farn honno?

**Cwestiwn 5:** Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effeithiau y byddai'n cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 6:** Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut y credwch y gellir llunio neu newid y camau gweithredu sy'n cael eu cynnig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 7** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol yn y ddogfen hon. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r ymatebion. Roedd hyn yn categoreiddio'r safbwyntiau, y sylwadau, y datganiadau a'r materion a godwyd gan ymatebwyr yn themâu trosfwaol, ar gyfer pob un o gwestiynau'r ymgynghoriad.

## Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Roedd nifer o themâu yn deillio o ymatebion unigol mewn perthynas â dynodi:

- Manteision iechyd meddwl nofio agored yn y lleoliadau hyn
- Canfyddiad bod dynodi yn cefnogi elfennau sy'n ysgogi polisi'r llywodraeth ym maes iechyd e.e. cynyddu ymarfer corff a lleihau gordewdra
- Ffordd o gysylltu pobl â natur i wneud iddynt ofalu mwy am yr amgylchedd
- Poblogrwydd cynyddol nofio agored fel camp
- Optimistiaeth y byddai dynodi yn helpu i sbarduno'r gwaith o wella ansawdd a seilwaith dŵr ar y traethau hyn
- Nifer o sylwadau gan nifer y bobl sydd eisoes yn nofio yn y lleoliadau hyn, sy'n golygu y byddai dynodi'n rhoi data iddynt ar yr ansawdd o leiaf

- Awydd cryf i gael gwybod am ansawdd y dŵr fel bod defnyddwyr dŵr yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch y risgiau cyn mynd i mewn i'r dŵr
- Cred y byddai dynodi'n ei gwneud yn haws gwella'r ansawdd os yw'r ansawdd yn hysbys yn y lle cyntaf.

**<u>Tabl o ymatebion</u>**

Mae'r tablau isod yn crynhoi'r cwestiynau a nifer yr ymatebion i'r cwestiynau. Mae crynodeb manwl pellach o'r sylwadau a ddaeth i law ar gyfer yr holl gwestiynau yn cael ei ddarparu hefyd.

| Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddynodi Traeth Aberogwr yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2023? Beth yw'ch barn am y cynnig a'ch rhesymau/tystiolaeth o blaid y farn honno? | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ymatebwyr | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu heb farn |
| 125 | 112 (89.60%) | 1 (0.80%) | 12 (9.60%) |

| Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddynodi Bae'r Tŵr Gwylio, y Barri yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2023? Beth yw'ch barn am y cynnig a'ch rhesymau/tystiolaeth o blaid y farn honno? | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ymatebwyr | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu heb farn |
| 153 | 142 (92.81%) | 0 (0.00%) | 11 (7.19%) |

| Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddynodi Traeth Gorllewin Porth Tywyn yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2023? Beth yw'ch barn am y cynnig a'ch rhesymau/tystiolaeth o blaid y farn honno? | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ymatebwyr | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu heb farn |
| 139 | 122 (87.77%) | 1 (0.72%) | 16 (11.51%) |

| Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddynodi Traeth Dwyrain Porth Tywyn yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2023? Beth yw'ch barn am y cynnig a'ch rhesymau/tystiolaeth o blaid y farn honno? | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ymatebwyr | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu heb farn |
| 135 | 117 (86.67%) | 1 (0.74%) | 17 (12.59%) |

| Cwestiwn 5: Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effeithiau y byddai'n cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol? | |
|---|---|
| Nifer yr ymatebwyr | Ymateb naratif |
| 112 | |

| Cwestiwn 6: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut y credwch y gellir llunio neu newid y camau gweithredu sy'n cael eu cynnig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |
|---|---|
| Nifer yr ymatebwyr | Ymateb naratif |
| 84 | |

| Cwestiwn 7: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma: | |
|---|---|
| Nifer yr ymatebwyr | Ymateb naratif |
| 37 | |

**Cwestiwn 1**

**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddynodi Traeth Aberogwr yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2023? Beth yw'ch barn am y cynnig a'ch rhesymau/tystiolaeth o blaid y farn honno?**

Cafwyd 125 o ymatebion i gwestiwn un, gyda 112 (89.60%) o ymatebwyr yn dweud eu bod yn cytuno â'r cynnig i ddynodi Traeth Aberogwr.

Dywedodd 12 o ymatebwyr naill ai nad oedd ganddynt farn ar y dynodiad neu nad oeddent yn gyfarwydd â'r safle penodol.

Roedd un ymateb yn anghytuno â dynodi, gan nodi parcio annigonol ar gyfer cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, a galwodd am ystyriaeth bellach o'r effeithiau ar fywyd gwyllt a'r amgylchedd.

Nododd nifer fawr o'r ymatebwyr fod Aberogwr yn ardal brysur iawn sy'n cael ei defnyddio'n helaeth ar gyfer gweithgareddau dŵr, gyda nofio, trochi, padlfyrddio, syrffio, pysgota a chanŵio'n digwydd ar y safle gydol y flwyddyn, ond yn enwedig yn yr haf.

Soniodd nifer o'r ymatebwyr fod y traeth yn arbennig o boblogaidd gyda theuluoedd, plant a'r gymuned leol, yn ogystal ag ymwelwyr o bob oed. Dywedodd rhai

ymatebwyr eu bod yn nofio ar y safle yn ddyddiol, gyda nifer uchel yn defnyddio'r safle'n rheolaidd ar gyfer gweithgareddau ddŵr.

Nododd nifer arwyddocaol o ymatebion amrywiaeth eang o fuddion iechyd a lles o gymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr ar y safle hwn, yn enwedig nofio. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y cynnydd sylweddol mewn gweithgareddau dŵr ar y safle hwn ers y pandemig COVID-19, a'i fod yn lleoliad sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer therapi dŵr oer hefyd.

Roedd llawer o ymatebion yn cydnabod yn glir y cyfleoedd cymdeithasol gwerthfawr y mae gweithgareddau dŵr yn eu creu hefyd. Mynegwyd hyn yn arbennig gan ymatebwyr sy'n perthyn i grwpiau nofio sy'n cyfarfod yn rheolaidd, gyda chyfeillgarwch wedi datblygu drwy eu mwynhad cyffredin o nofio. Gwelwyd hefyd bod y safle a'i weithgareddau dŵr yn cyfrannu at ymdeimlad o gymuned ac yn darparu rhwydwaith cymorth.

Nodwyd hefyd fod clwb achub bywyd ar y môr yn gweithredu o'r traeth, sy'n cadw llygad ar y lle yn ystod rhai o fisoedd yr haf. Mae gan y clwb bron i 300 o aelodau ac mae'n darparu hyfforddiant yn rheolaidd. Cydnabuwyd hefyd fod Sefydliad Brenhinol y Badau Achub (RNLI) yn darparu gwasanaeth gwerthfawr ar y safle yn ystod rhan o'r flwyddyn.

Croesawodd y mwyafrif o'r ymatebwyr brofion ansawdd ar y dŵr ar y safle, gan nodi ei bwysigrwydd i iechyd defnyddwyr y dyfroedd a'r angen am ddarparu gwybodaeth am ba mor lân yw'r dŵr. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at y ffaith y byddai dynodi'r safle hwn yn golygu cynnal profion rheolaidd o ansawdd dŵr yn Aberogwr a rhoi hyder i'r rhai sy'n defnyddio'r safle ei fod yn ddiogel.

Nodwyd hefyd fod gwaith trin carthion ger y traeth. Tynnodd nifer o'r ymatebwyr sylw hefyd at yr angen am wybodaeth am achosion o lygredd yn ogystal ag ansawdd dŵr er mwyn iddynt wneud penderfyniad gwybodus ynghylch pryd i nofio. Soniodd rhai ymatebwyr y bydden nhw'n hoffi gweld profion ansawdd dŵr drwy'r flwyddyn.

Nododd Dŵr Cymru fod gwaith trin dŵr gwastraff gerllaw eisoes yn gweithredu proses i leihau faint o facteria sy'n cael ei ollwng drwy ddefnyddio proses uwchfioled. Fodd bynnag byddai angen asesiad pellach o effeithiau posib ar ansawdd dŵr yr ardal (gan gynnwys ffynonellau y tu allan i gwmpas y cwmni).

## Cwestiwn 2

**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddynodi Bae'r Tŵr Gwylio, y Barri yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2023? Beth yw'ch barn am y cynnig a'ch rhesymau/tystiolaeth o blaid y farn honno?**

Cafwyd 153 o ymatebion i gwestiwn dau, gyda 142 (92.81%) o ymatebwyr yn dweud eu bod yn cytuno â'r cynnig i ddynodi.

Dywedodd 11 o ymatebwyr naill ai nad oedd ganddynt farn ar y dynodiad neu nad oeddent yn gyfarwydd â'r safle penodol.

Nid oedd unrhyw ymateb yn anghytuno â dynodi Bae’r Tŵr Gwylio, y Barri.

Nododd nifer uchel o’r ymatebwyr fod Bae’r Tŵr Gwylio, y Barri yn safle sy’n cael ei ddefnyddio’n helaeth ar gyfer nofio a gweithgareddau dŵr a’i werthfawrogi’n fawr gan y gymuned leol. Dywedodd llawer o’r ymatebwyr sy’n aelodau o grwpiau nofio eu bod yn defnyddio’r safle drwy’r flwyddyn, a darparwyd ffigyrau i nodi niferoedd sylweddol uchel o ymdrochwyr rheolaidd ar y safle.

Soniodd nifer uchel o’r ymatebwyr eu bod yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau dŵr ar y safle, ac wedi gweld gweithgareddau o’r fath, gan gynnwys nofio, trochi, padlfyrddio, syrffio, caiacio, rhwyfo a chanŵio.

Roedd yr ymatebion yn nodi hefyd bod y safle’n cael ei ddefnyddio’n helaeth gan deuluoedd a phlant lleol ac yn rheolaidd gan wahanol grwpiau gweithgareddau dŵr o bob oed. Dywedwyd nad oedd yn anarferol gweld cannoedd o bobl ar y traeth ac yn y dŵr ar rai dyddiau.

Cyfeiriodd nifer uchel o’r ymatebwyr at bwysigrwydd Bae’r Tŵr Gwylio o ran darparu buddion meddyliol, lles ac iechyd corfforol, gyda therapi dŵr oer yn digwydd ar y safle hefyd. Ystyriwyd bod y safle a’r gweithgareddau dŵr sy’n cael eu cynnal yno’n cysylltu pobl â natur ac yn annog cyfeillgarwch a lleddfu unigrwydd.

Nododd rhai ymatebion fod nofio ar y safle yn rhad ac am ddim a bod modd i bobl leol ac ymwelwyr fwynhau hynny.

Byddai profion ansawdd dŵr rheolaidd ar y safle nid yn unig o fudd i bobl sy’n defnyddio’r safle ar gyfer gweithgareddau dŵr, ond hefyd yn cynnig manteision i fywyd gwyllt gan nodi’r potensial i’r safle fod yn gaffaeliad bywyd gwyllt i’r dref ac ymwelwyr â’r Bae, gan ehangu cyfleoedd hamdden. Nodwyd hefyd y byddai traethau a dŵr glanach o fudd i dwristiaeth ac yn darparu buddion economaidd lleol.

Dywedodd rhai ymatebwyr y bydden nhw’n hoffi gweld mwy o gyfleusterau gwell ar y safle ar gyfer ymwelwyr hefyd, fel toiledau a pharcio.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder am chwaraeon dŵr modur yn y Bae. Soniodd eraill am bryderon o ran effaith carthion yn gollwng i’r bae, yn enwedig yn ystod cyfnodau o law trwm, ac roedden nhw’n teimlo y bydd profi a monitro ansawdd dŵr rheolaidd fel rhan o’r broses ddynodi’n helpu i leddfu pryderon defnyddwyr dŵr ac y dylai arwain at welliannau. Ystyriwyd y byddai dynodi’r safle a chynnal profion dilynol yn ffordd o roi gwybod i ymdrochwyr pan nad oedd nofio’n ddiogel.

Nododd Dŵr Cymru fod y safle o fewn ardal drefol iawn ac er bod buddsoddiad sylweddol wedi digwydd yn yr ardal yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae’n debygol mai gollyngiadau dŵr yw prif ffynhonnell bacteria.

## Cwestiwn 3

**Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r cynnig i ddynodi Traeth Gorllewin Porth Tywyn yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2023? Beth yw’ch barn am y cynnig a’ch rhesymau/tystiolaeth o blaid y farn honno?**

Cafwyd 139 o ymatebion i gwestiwn tri, gyda 122 (87.77%) o ymatebwyr yn dweud eu bod yn cytuno â’r cynnig i ddynodi Traeth Gorllewin Porth Tywyn.

Dywedodd 16 o ymatebwyr naill ai nad oedd ganddynt farn ar y dynodiad neu nad oeddent yn gyfarwydd â’r safle penodol.

Roedd un ymateb yn erbyn dynodi, gyda phryderon am ddiogelwch a’r posibilrwydd o ansawdd dŵr gwael ar adegau.

Roedd nifer sylweddol o’r ymatebion yn rhoi enghreifftiau manwl o unigolion, teuluoedd a grwpiau sy’n defnyddio’r safle ar gyfer nofio, padlfyrddio a gweithgareddau dŵr eraill. Nododd nifer o’r ymatebion eu bod wedi gweld cannoedd o ymdrochwyr, padlfyrddwyr a phobl eraill yn defnyddio’r dyfroedd a’r traeth yn ystod haf 2022 hefyd. Soniodd llawer o ymatebion fod y traeth yn safle sy’n denu teuluoedd, pobl leol, ymwelwyr a phobl o bob oed.

Cafwyd nifer o ymatebion gan gynrychiolwyr grwpiau nofio lleol sy’n nofio’n rheolaidd ar Draeth Gorllewin Porth Tywyn. Roedd llawer o’r ymatebion hyn yn cydnabod y cyfleoedd cymdeithasol gwerthfawr sy’n codi o gyfarfod ag eraill yn rheolaidd a datblygu cyfeillgarwch ar sail eu mwynhad o nofio. Gwelwyd hefyd bod y safle a’i weithgareddau dŵr yn cyfrannu at ymdeimlad o gymuned ac yn darparu rhwydwaith cymorth.

Roedd llawer o’r ymatebion yn sôn am bwysigrwydd Traeth Gorllewin Porth Tywyn fel amgylchedd naturiol gwerthfawr i fwynhau’r awyr agored gan y gymuned leol ac ymwelwyr. Roedd dynodi’n cael ei ystyried fel ffordd o gefnogi busnesau lleol a thwristiaeth hefyd.

Roedd nifer sylweddol o ymatebion yn sôn am bwysigrwydd profi a monitro ansawdd dŵr ar y safle fel bod gwybodaeth ar gael i ymdrochwyr gael gwybod os yw hi’n ddiogel i nofio a’r dyfroedd yn lân. Roedd nifer o ymatebion yn pwysleisio’r angen i ddiogelu traethau rhag gollyngiadau carthion a mathau eraill o lygredd hefyd.

Nododd nifer uchel o ymatebion gyfraniad pwysig nofio awyr agored at wella lles, iechyd corfforol a iechyd meddyliol pobl. Cyfeiriodd llawer o’r ymatebion hynny’n benodol at fanteision llesiant ac iechyd nofio ar Draeth Gorllewin Porth Tywyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf a’r pandemig COVID-19.

Mynegodd Cyngor Sir Gâr bryderon am ddiogelwch ar Draeth Gorllewin Porth Tywyn, gan fod achosion o bobl wedi cael eu dal ar y banc tywod oherwydd ceryntau cryf a symudiad cyflym y llanw. Dywedodd y cyngor y gallai dynodi gynyddu’r risg i ddiogelwch yn sgil annog niferoedd ymdrochwyr mewn ardal sydd â pheryglon diogelwch hysbys. Mae’r RNLI wedi mynegi pryderon cyffelyb am ddiogelwch, gan nodi bod y lleoliad yn achosi tua 25% o alwadau blynyddol bad achub Porth Tywyn o ganlyniad i’r llif cyflym wrth i’r llanw ddod i mewn. Mae Cyngor Sir Gâr yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o asiantaethau, gan gynnwys yr RNLI, Grŵp Morol

Caerdydd a Gwylwyr y Glannau er mwyn cyfleu'r peryglon hyn ar Draeth Gorllewin Porth Tywyn. Mae hyn yn cynnwys gwell arwyddion yn y lleoliadau hynny sy'n cynnig mynediad i'r traeth, dosbarthu taflenni mewn parciau gwyliau, busnesau a chyfleusterau hamdden lleol, ac ymgyrch gyson ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n cynnwys ffilm treigl amser.

Mae Dŵr Cymru o'r farn mai ychydig iawn o effaith fydd ei asedau'n ei chael ar ansawdd dŵr ymdrochi ar Draeth Gorllewin Porth Tywyn a bod unrhyw lygredd bacteriol posibl ar y safle'n debygol o fod o ffynonellau eraill fel llygredd amaethyddol a thanciau septig a reolir yn wael.

**Cwestiwn 4**

**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddynodi Traeth Dwyrain Porth Tywyn yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2023? Beth yw'ch barn am y cynnig a'ch rhesymau/tystiolaeth o blaid y farn honno?**

Cafwyd 135 o ymatebion i gwestiwn pedwar, gyda 117 (86.67%) o ymatebwyr yn dweud eu bod yn cytuno â'r cynnig i ddynodi Traeth Dwyrain Porth Tywyn.

Dywedodd 17 o ymatebwyr naill ai nad oedd ganddynt farn ar y dynodiad neu nad oeddent yn gyfarwydd â'r safle penodol.

Roedd un ymateb yn erbyn dynodi, gyda phryderon am ddiogelwch a'r posibilrwydd o ansawdd dŵr gwael ar adegau.

Roedd nifer sylweddol o'r ymatebion yn rhoi enghreifftiau manwl o unigolion, teuluoedd a grwpiau sy'n defnyddio'r safle ar gyfer nofio, padlfyrddio a gweithgareddau dŵr eraill. Cafwyd nifer o ymatebion gan gynrychiolwyr grwpiau nofio lleol sy'n nofio'n rheolaidd ar Draeth Dwyrain Porth Tywyn.

Nododd nifer o'r ymatebion hefyd eu bod wedi gweld llawer o ymdrochwyr, padlfyrddwyr a defnyddwyr eraill yn defnyddio'r dyfroedd a'r traeth yn ystod haf 2022 hefyd. Soniodd nifer o ymatebion fod y traeth yn safle sy'n denu teuluoedd, pobl leol, ymwelwyr a phobl o bob oed.

Cyfeiriodd rhai ymatebion at bwysigrwydd Traeth Dwyrain Porth Tywyn fel amgylchedd naturiol gwerthfawr o ran mwynhau'r awyr agored, gyda digon o lefydd parcio a chyfleusterau gerllaw. Roedd dynodi'n cael ei ystyried fel ffordd o gefnogi busnesau lleol a thwristiaeth hefyd.

Roedd nifer sylweddol o ymatebion yn sôn am bwysigrwydd profi a monitro ansawdd dŵr ar y safle fel bod pobl yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am nofio yn yr ardal. Roedd nifer o ymatebion yn pwysleisio'r angen i ddiogelu traethau rhag gollyngiadau carthion a mathau eraill o lygredd hefyd.

Nododd llawer o'r ymatebion gyfraniad pwysig nofio o ran gwella lles, iechyd corfforol ac iechyd meddyliol pobl. Cyfeiriodd llawer o'r ymatebion hynny'n benodol at fanteision llesiant ac iechyd nofio ar Draeth Dwyrain Porth Tywyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'r pandemig COVID-19.

Mynegodd Cyngor Sir Gâr bryderon am Draeth Dwyrain Porth Tywyn o ran peryglon ceryntau cryf i ddiogelwch, a'r potensial am ansawdd dŵr gwael. Mae'r traeth yn agos at fynedfa Harbwr Porth Tywyn hefyd, sy'n cael ei ddefnyddio gan gychod hamdden a physgota masnachol, ac sy'n cael ei garthu'n rheolaidd gan ddefnyddio carthu chwistrellu dŵr. Fel yn achos Traeth Gorllewin Porth Tywyn, mae Cyngor Sir Gâr yn hysbysu'r cyhoedd am y peryglon drwy arwyddion, dosbarthu taflenni a'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r RNLI wedi sôn am risg posibl i ddiogelwch yng nghyswllt mynediad i'r safle drwy ddwy lithrfa hefyd. Defnyddir y llithrfa allanol gan y cyhoedd i lansio cychod bach a jet-sgïau, a'r llithrfa fewnol yw lleoliad lansio eilaidd dau fad achub Porth Tywyn mewn achos o argyfwng ar y môr. Nodwyd cynnydd yn y risg i ddiogelwch gan weithgaredd cychod os oes cynnydd yn nifer yr ymdrochwyr yn sgil dynodi.

Mae Dŵr Cymru o'r farn mai ychydig iawn o effaith fydd ei asedau'n ei chael ar ansawdd dŵr ymdrochi ar Draeth Dwyrain Porth Tywyn a bod unrhyw lygredd bacteriol posibl ar y safle hwn yn debygol o fod o ffynonellau eraill fel llygredd amaethyddol a thanciau septig a reolir yn wael.

**Cwestiwn 5 a 6**

**Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effeithiau y byddai'n cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut y credwch y gellir llunio neu newid y camau gweithredu sy'n cael eu cynnig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Mae'r Gymraeg yn un o'n trysorau cenedlaethol; dyma sy'n ein gwneud yn unigryw fel cenedl ac mae'n rhan bwysig o'n diwylliant a'n heconomi. Mae'n galonogol gweld cynifer o ymatebion cadarnhaol ynglŷn â'r Gymraeg yn ein hadolygiad o ddyfroedd ymdrochi.

Mae'n amlwg o'r ymatebion a gasglwyd fod aelodau'r cyhoedd yn mwynhau a chefnogi'r defnydd o'r ardaloedd hyn fel dyfroedd ymdrochi. Dangoswyd cefnogaeth bendant i'r defnydd o'r Gymraeg a chydnabyddiaeth o fanteision gallu defnyddio'r

iaith yn gymdeithasol, er nad oedd rhai ymatebwyr yn gallu gweld sut y byddai'r adolygiad yn effeithio ar yr iaith.

Rydym yn croesawu'r ymatebion hyn. Nododd ymatebwyr y defnydd o'r iaith yn ein cymunedau, fel iaith y rhai sy'n byw yn yr ardal ac fel cyfle i hyrwyddo Cymru a'n hiaith i ymwelwyr. Mae defnyddio'r Gymraeg yn ein mannau cyhoeddus yn bwysig i ni – mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd. Soniodd rhai ymatebion yn benodol am brofiadau cadarnhaol dysgu; defnyddio a chael eu hysbrydoli i ddysgu Cymraeg oherwydd eu hymwneud â grwpiau nofio yn y lleoliadau hyn gan brofi y gall ychydig bach o Gymraeg gael effaith.

Rydym yn falch y gall dŵr ymdrochi glân gyfrannu at ein nodau polisi ehangach. Drwy gydweithio ag awdurdodau lleol a'u cymunedau byddwn yn sicrhau bod arwyddion dwyieithog yn cael eu defnyddio yn yr ardaloedd hyn. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid fel y Mentrau Iaith a'r Urdd hefyd. Mae'r partneriaid hyn yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau i roi cyfle i bawb ddefnyddio'r Gymraeg lle bynnag y bônt – gartref, yn y gwaith neu wrth sgwrsio gyda ffrindiau. Drwy wneud hynny, gobeithiwn y gallwn helpu'r gymuned o ymdrochwyr sy'n defnyddio'r dyfroedd hyn i deimlo'n gysylltiedig â'u hiaith a'u diwylliant mewn ffordd sy'n cefnogi eu lles.

## Cwestiwn 7

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:**

Yn ogystal â'r pedwar traeth a enwyd, roedd nifer o ymatebion yn gefnogol ar y cyfan i ddynodi cynifer o draethau â phosibl yng Nghymru. Roedd rhai ymatebion yn cyfeirio'n benodol at boblogrwydd cynyddol nofio gwyllt a'r buddion y mae'n eu cynnig i iechyd meddwl a chorfforol a lles.

Tynnodd Nofio Cymru sylw at achrediad newydd "Safe Aquatic Facility Endorsement (S.A.F.E) Cymru" i ategu dynodiadau dŵr ymdrochi, a ddatblygwyd gyda phartneriaid allweddol i hyrwyddo safonau diogelwch cyfleusterau dyfrol. Ar gyfer yr holl gynigion, roedd Nofio Cymru'n annog ymgynghori pellach gyda'r gymuned leol, a chydag arbenigwyr diogelwch ynghylch risgiau posibl o ran diogelwch dŵr.

Roedd rhai ymatebion yn nodi bod angen cynyddu hygyrchedd dyfroedd ymdrochi ar gyfer pobl ag anableddau er mwyn sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i elwa ar y safleoedd hyn.

Soniodd nifer o'r ymatebwyr hefyd am yr angen i fynd i'r afael â gollyngiadau carthion ar draethau a mathau eraill o lygredd sy'n gallu effeithio ar ansawdd dŵr ymdrochi.

## Ymateb y Llywodraeth

### Canlyniad yr ymgynghoriad

Wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â dynodi dŵr ymdrochi, y brif ystyriaeth yw nifer yr ymdrochwyr. Fodd bynnag, nid ydym wedi pennu ffigur ffurfiol, gan fod pob dŵr ymdrochi'n wahanol ac ni fyddai un ffigur yn addas ar gyfer pob safle. Rydym yn chwilio am dystiolaeth o niferoedd y nofwyr, pobl yn padlo ar ymyl y dŵr a phobl ar y traeth. Rydym yn edrych hefyd ar dueddiadau'r gorffennol, unrhyw seilwaith neu gyfleusterau a ddarperir neu fesurau sydd wedi'u cymryd i hyrwyddo ymdrochi yn unol â'r hyn a nodir yn Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013.

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion a gafwyd yn fanwl, yn ogystal â'r wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd, mae Gweinidogion Cymru yn fodlon bod Traeth Aberogwr a Bae'r Tŵr Gwylio wedi bodloni'r meini prawf a nodir yn rheoliad 3(2) o Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013. **Felly, mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu dynodi Traeth Aberogwr a Bae'r Tŵr Gwylio yn ddyfroedd ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2023.**

Tra bod Gweinidogion Cymru o'r farn bod tystiolaeth briodol am nifer yr ymdrochwyr ar Draeth Gorllewin Porth Tywyn a Thraeth Dwyrain Porth Tywyn, mae pryderon ynghylch diogelwch y safleoedd yma oherwydd y ceryntau cryf a symudiad cyflym y llanw. **Felly, mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu gohirio dynodi Traeth Gorllewin Porth Tywyn a Thraeth Dwyrain Porth Tywyn fel dyfroedd ymdrochi nes y bydd pryderon diogelwch yn cael eu lliniaru.**

Bydd Llywodraeth Cymru yn achub ar y cyfle hwn i weithio'n agos gyda Chyngor Sir Gâr ac arbenigwyr diogelwch i gael gwell dealltwriaeth o'r peryglon diogelwch a nodi gwelliannau er mwyn sicrhau bod y rhagofalon diogelwch angenrheidiol ar waith. Mae'n bwysig hybu ymwybyddiaeth o ddiogelwch dŵr a sicrhau bod pobl yn deall bod yr arwyddion yno i egluro amodau'r dyfroedd a natur pethau na ellir eu gweld o dan y dŵr. Mae Llywodraeth Cymru yn annog pawb i sicrhau eu bod yn mwynhau ein dyfroedd yn ddiogel ac yn gyfrifol.

Gall unrhyw un argymell ardal o ddŵr wyneb a ddefnyddir ar gyfer ymdrochi i gael ei dynodi'n ddŵr ymdrochi. Yn y lle cyntaf, rydym yn argymell bod pobl yn siarad â'r Awdurdod Lleol oherwydd mae'n debyg y bydd ganddynt wybodaeth ddefnyddiol am draethau yn yr ardal, a'r awdurdod fydd yn gyfrifol am fodloni gofynion amrywiol o dan Reoliadau Dŵr Ymdrochi 2013 os bydd y dŵr yn cael ei ddynodi'n ddŵr ymdrochi.

### Monitro dyfroedd ymdrochi dynodedig

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gyfrifol am fonitro ansawdd dŵr ymdrochi mewn safleoedd dŵr ymdrochi dynodedig yng Nghymru. Pan fo dŵr wyneb wedi'i ddynodi'n ddŵr ymdrochi, mae'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru lunio proffil manwl a rhaglen

fonitro ar ei gyfer, yn yr un modd ag y mae'n ei wneud ar gyfer pob dŵr ymdrochi a ddynodir yng Nghymru.

Mae proffiliau dŵr ymdrochi'n cynnwys disgrifiad o'r dŵr ymdrochi a'r ardal gyfagos, unrhyw afonydd a nentydd sy'n llifo i mewn i bob safle a manylion ynghylch sut y rheolir llygredd ar y safle.

Mae'r proffiliau hyn yn nodi canlyniadau cydymffurfio ansawdd dŵr ymdrochi hefyd, ac yn esbonio'r gwaith a wneir gyda phartneriaid eraill er mwyn canfod ble mae angen gwella ansawdd y dŵr. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chwmnïau dŵr, y sector amaeth ac Awdurdodau Lleol i nodi problemau a allai effeithio ar ansawdd dŵr ymdrochi.

Yn ogystal, mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol, sy'n rheoli dŵr ymdrochi dynodedig, sicrhau bod gwybodaeth fanwl am y dŵr ymdrochi ar gael mewn man hygyrch ger y dŵr ymdrochi yn ystod y tymor ymdrochi (15 Mai i 30 Medi).

Mae'n ofynnol hefyd i Awdurdodau Lleol arddangos rhagor o wybodaeth ym mhob safle dŵr ymdrochi dynodedig yn ystod y tymor ymdrochi ar ffurf symbolau dosbarthu ansawdd dŵr.

## Y Camau Nesaf

Byddwn yn rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru am benderfyniad Gweinidogion Cymru i bennu Traeth Aberogwr a Bae'r Tŵr Gwylio yn ddyfroedd ymdrochi dynodedig a gofyn iddynt baratoi proffil o'r dŵr ymdrochi ac adolygu'r proffil yn gyson.

Byddwn yn rhoi gwybod i CNC hefyd am benderfyniad Gweinidogion Cymru i ohirio dynodi Traeth Gorllewin Porth Tywyn a Thraeth Dwyrain Porth Tywyn fel dyfroedd ymdrochi nes y bydd pryderon diogelwch yn cael eu lliniaru.

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar 'Adolygiad o Ddyfroedd Ymdrochi yng Nghymru 2023'.

## Atodiad A – Rhestr o'r Sefydliadau a Ymatebodd

Nid yw'r rhestr hon o sefydliadau a ymatebodd yn gynhwysfawr ac mae'n seiliedig ar y rhai a wnaeth ddatgan eu Sefydliad. Gall hyn gynnwys ymatebion gan unigolion sy'n aelodau o sefydliadau penodol ac felly nid yw'n adlewyrchu barn y sefydliad hwnnw o reidrwydd. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys y rhai a ofynnodd i'w hymateb gael ei gadw'n gyfrinachol chwaith na'r rhai na wnaeth gynnwys enw'r sefydliad.

- Dŵr Cymru
- RNLI
- Cyngor Sir Gâr
- Nofio Cymru
- Clwb Rhwyfo Môr Arfordirol Barry Athletic
- Clwb Achub Bywyd o'r Môr Bae Jackson
- Clwb Achub Bywyd o'r Môr Llanilltud Fawr
- Cyngor Cymuned Saint-y-brid, Southerndown ac Aberogwr
- Fforwm Cymuned Gydnerth Pen-bre a Phorth Tywyn
- Cymdeithas Achub Bywyd o'r Môr Cymru
- Plaid Werdd y Barri a'r Fro
- Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth
- Nifer o ymatebion unigol gan aelodau nifer o glybiau nofio agored